OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1360 (Cy.115)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ebrill 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Ebrill 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Mai 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**2**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mai 2010.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(**3**).

### Diwygio'r Prif Reoliadau

**3.**—(1) Diwygir y Prif Reoliadau'n unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn nhrydydd paragraff y rhaglith—

(a) yn y testun Saesneg, yn lle "to the Secretary of State" rhodder "to the Welsh Ministers";

(**1**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).

(**2**) O.S. 2005/1971.Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2009/1557 (Cy.152).

a

(b) yn y testun Cymraeg yn lle "i'r Ysgrifennydd Gwladol" rhodder "i Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y testun Cymraeg, yn lle'r diffiniad sy'n dechrau â'r geiriau "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" ac sy'n gorffen â'r geiriau "yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;" rhodder

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation2075/2005*") a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation2076/2005*") yr ystyron a roddir iddynt yn eu trefn yn Atodlen 1;".

(4) Yn rheoliad 5(2)(b) (gwybodaeth)—

(a) yn y testun Saesneg, y ddau dro y ceir y gair "secretary" rhodder yn ei le y gair "Secretary"; a

(b) yn y testun Cymraeg, y ddau dro y ceir y geiriau "ysgrifennydd neu ysgrifenyddes" rhodder yn eu lle y gair "Ysgrifennydd".

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Ebrill 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1557 (Cy.152)) ("y Prif Reoliadau") yn dirymu a disodli Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/601 (Cy.63)).

Mae'r Prif Reoliadau'n darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 sy'n ymwneud â chyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, ac ag iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i ffioedd gael eu casglu i dalu costau sy'n cael eu peri gan reolaethau swyddogol mewn perthynas â mathau neilltuol o ddofednod; lles anifeiliaid mewn lladd-dai; cigydda anifeiliaid y tu allan i ladd-dai a chigydda dofednod ac anifeiliaid amrywiol eraill a ffermir ar ffermydd. Mae'r Prif Rheoliadau'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â hysbysu gweithredwyr am unrhyw ofyniad i dalu ffioedd neu i roi gwybodaeth, ac mewn perthynas â chyfrifo ffi rheolaethau swyddogol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r rhaglith, ac i reoliadau 2(1) a 5(2)(b), yn y Prif Reoliadau.